ADEILADWAITH OBR

Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru
North Wales Construction Partnership
Adeiladu Cymunedau Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Building North Wales Communities Together

# Astudiaeth Achos
# Case Study

# Ysgol Llanllechid dosbarthiadau ychwanegol



**Enw'r cleient**
**Client name**
**Cyngor Gwynedd**

**Gwerth y prosiect**
**Project value**
**£1.1m**

**Dyddiadau dechrau a cwblhau**
**Start and completion date**
**Mai 2025 - Mai 2026**

**Ffurf y contract**
**Form of contract**
**JCT D&B 2016**

**Math o ddarpariaeth**
**Delivery type**
**Adeiladu estyniad 2 ystafell ddosbarth newydd a gwaith adnewyddu mewnol**

**Sector**
**Sector**
**Addysg**

**Contractwr yn darparu'r prosiect**
**Contractor delivering project**
**OBR Construction**

## Y Prosiect
## The Project

Cafodd y cynllun ei gaffael drwy'r dull traddodiadol o ddylunio – tendro – adeiladu. Penodwyd OBR Construction i gyflawni estyniad arfaethedig ac ail-drefnu yn Ysgol Llanllechid, Rachub.

Roedd y prosiect yn cynnwys estyniad newydd dwy ystafell ddosbarth fodern, ynghyd ag addasiadau mewnol megis ail-leoli swyddfa'r pennaeth ac uwchraddio gwasanaethau hanfodol yr adeilad. Dyluniwyd y gwelliannau hyn i gynyddu capasiti'r ysgol, gan alluogi Ysgol Llanllechid i groesawu mwy o blant o'r gymuned leol sy'n tyfu. Trwy ehangu darpariaeth mewn ysgol Gymraeg, mae'r cynllun hefyd yn cefnogi twf parhaus y Gymraeg, gan helpu mwy o ddisgyblion i ddysgu a ffynnu drwy'r iaith ac atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal.

Gan weithio ochr yn ochr â'r partneriaid cyflawni Saer Architecture, Cadarn Consulting a SP Projects, a oedd yn rheoli'r cynllun ar ran Cyngor Gwynedd, bu OBR Construction yn darparu'r estyniad modern hwn drwy ddull cydweithredol. Llwyddodd y tîm i lywio heriau gweithio ar safle ysgol fyw, gan gyflawni'r gwaith cloddio, ffurfio sylfeini newydd a chodi'r estyniad, oll wrth gynnal amcanion y rhaglen, ansawdd a chynaliadwyedd.

Dyluniwyd yr estyniad i ddarparu amgylchedd ddysgu cyfforddus tra'n lleihau defnydd ynni a chostau rhedeg. Mabwysiadwyd dull "ffabrig yn gyntaf", gan gynnwys inswleiddio uwch, ffenestri a drysau perfformiad uchel, a lefelau uchel o athreiddedd aer, ynghyd â thechnolegau carbon isel sy'n galluogi'r adeilad i fodloni gofynion presennol Rheoliadau Adeiladu.

# Adeiladu Cymunedau Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

# Building North Wales Communities Together

“Y GYMRU A GAREM
THE WALES WE WANT”

**Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
**A globally responsible Wales**

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**
**A Wales of vibrant culture and thriving Welsh Language**

**Cymru o gymunedau cydlynus**
**A Wales of cohesive communities**

**Cymru sy’n fwy cyfartal**
**A more equal Wales**

**Cymru iachach**
**A Healthier Wales**

**Cymru gydnerth**
**A Resilient Wales**

**Cymru lewyrchus**
**A prosperous Wales**

## Y Pum Ffordd o Weithio
## The Five Ways of Working

## Ychydig mwy…
## A little bit more…

Rhoddwyd blaenoriaeth i gaffael cynaliadwy ac i ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol drwy gydol y gwaith adeiladu, gan gefnogi’r economi leol a lleihau effeithiau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â chludiant. Atgyfnerthwyd hygrededd cynaliadwyedd y prosiect ymhellach drwy reoli gwastraff yn effeithiol a defnyddio dulliau adeiladu effeithlon, gan sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n gyfrifol a bod yr effaith amgylcheddol yn cael ei lleihau i’r lleiafswm.

Mae’r datblygiad yn darparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel sy’n cefnogi twf hirdymor yr ysgol ac yn gwella cyfleoedd addysgol i blant y gymuned leol. Mae’r ystafelloedd dosbarth newydd a’r cyfleusterau uwchraddedig yn cynyddu capasiti, yn gwella swyddogaethau o ddydd i ddydd, ac yn creu mannau modern sy’n hyrwyddo lles ac addysgu effeithiol. Fel ysgol Gymraeg, mae’r estyniad yn cryfhau mynediad at addysg Gymraeg, gan helpu mwy o ddisgyblion i ddysgu drwy’r iaith ac atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol y gymuned. Y tu hwnt i’r gwelliannau corfforol, mae’r prosiect yn darparu effaith gwerth cymdeithasol ystyrlon drwy gefnogi cyflogaeth leol, buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol, a chreu amgylchedd addysgol sy’n galluogi disgyblion i gyflawni canlyniadau dysgu gwell, mwy o hyder, a chysylltiadau cymunedol cryfach.

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy ddarparu estyniad ysgogol sy’n ymgorffori egwyddorion dylunio cynaliadwy, yn lleihau’r effaith amgylcheddol, ac sy’n defnyddio adnoddau’n gyfrifol.**

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu drwy greu mwy o le i blant ddysgu, chwarae ac ymgysylltu drwy weithgareddau cyfrwng Cymraeg.**

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru o gymunedau cydlynol drwy ddarparu trawstiau cydbwysedd i’r ysgol a’u gosod ar y safle. Drwy wella gofod awyr agored yr ysgol a rhoi cyfleoedd newydd i blant chwarae, symud ac ymgysylltu’n gymdeithasol, mae’r prosiect wedi cryfhau cysylltiadau o fewn y gymuned ac wedi cefnogi ymdeimlad o les a pherthyn.**

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru sy’n fwy cyfartal drwy ddarparu 20 awr o wythnosau hyfforddi. Darparwyd hefyd wythnos o brofiad gwaith i ddisgybl ysgol, gan roi cipolwg gwerthfawr ar adeiladwaith gan helpu i ehangu eu cyfleoedd yn y dyfodol.**

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru iachach drwy osod trawstiau cydbwysedd newydd yn yr ysgol, gan roi mwy o gyfleoedd i blant chwarae’n gorfforol, datblygu cydsymud, ac ymarfer corff yn yr awyr agored.**

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru gydnerth drwy greu estyniad ysgol sydd wedi’i gynllunio i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor ac i ddarparu mannau dysgu hyblyg sy’n gallu diwallu anghenion cenedlaethau’r dyfodol.**

**Mae’r prosiect yma wedi cyfrannu at Gymru lewyrchus drwy greu a chofnodi 20 awr o wythnosau hyfforddi, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn cael datblygiad sgiliau ystyrlon. Cyflwynwyd pum cyfle hyfforddi achrededig yn ogystal, gan gryfhau’r gweithlu lleol gyda chymwysterau cydnabyddedig. Yn ogystal, aeth 73% o holl wariant y prosiect i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan gefnogi busnesau lleol yn uniongyrchol a chadw’r buddion economaidd o fewn Cymru. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb yn yr ysgol, a helpodd ddisgyblion i ddysgu am y diwydiant adeiladu, meithrin diddordeb cynnar mewn gyrfaoedd STEM, a chael mewnwelediad i’r sgiliau a’r cyfleoedd o fewn sector adeiladu sy’n tyfu yng Nghymru. Yn ogystal, cafodd 100% o weithlu'r prosiect eu cyflogi o Gymru, gan sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth, datblygu sgiliau a gwariant y prosiect yn aros o fewn economi Cymru. Roedd hyn yn gwneud y mwyaf o'r manteision economaidd lleol ac yn cefnogi twf a chynaliadwyedd sector adeiladu Cymru.**

# Cymerwch olwg agosach

# Take a closer look









## Cyfrannu drwy nwyddau

Trawstiau cydbwysedd wedi'u darparu a'u gosod yn Ysgol Llanllechid

## Profiad Gwaith

Dysgwyr ysgol uwchradd yn mwynhau mewnwelediad i adeiladwaith



Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru
North Wales Construction Partnership

Adeiladu Cymunedau Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Building North Wales Communities Together